Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cabinet | Dyddiad: | 9 Hydref 2018 |
| | | Deialu Union: | 01824712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CABINET** sydd i'w gynnal am **4.00 pm, DYDD LLUN, 15 HYDREF 2018 yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol sy'n cynnwys atodiadau cyfrinachol.

| **Rhif Agenda** | **Eitem** |
|---|---|
| **5** | **EITEMAU O'R PWYLLGORAU CRAFFU** (Tudalennau 3 - 176) |

Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu at sylw'r Cabinet.

**DARPARU SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR**

I ystyried adroddiad (sy'n cynnwys atodiadau cyfrinachol) gan y Cynghorydd Graham Timms, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n manylu ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn eu hystyriaeth o benderfyniad y Cabinet ar
25 Medi 2018 a alwyd i fewn yn ymwneud â Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr, ac sy'n gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gan gymryd i ystyriaeth y wybodaeth ychwanegol a ofynwyd amdano gan Graffu.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y cyfarfod:** **15 Hydref 2018**

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu:** **Y Cynghorydd Graham Timms**
**Is-gadeirydd: Pwyllgor Craffu Cymunedau**

**Awdur yr Adroddiad:** **Rhian Evans (Cydlynydd Craffu)**

**Teitl:** **Darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Casgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 25 Medi 2018 ynglŷn â darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ynglŷn â darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych. Adolygwyd y penderfyniad hwnnw'n unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor wedi derbyn cais ffurfiol wedi'i lofnodi i adolygu'r penderfyniad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet:

3.1 yn cydnabod casgliadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 25 Medi;

3.2 yn ailystyried ei benderfyniad ar 25 Medi 2018 ynglŷn â lleoliadau arfaethedig y safleoedd preswyl a theithiol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych, gan ystyried yr wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor Craffu amdani; ac

3.3 yn y dyfodol, drwy ddarparu gwybodaeth yn sesiynau Briffio'r Cyngor, yn sicrhau y rhoddir gwybodaeth drylwyr i gynghorwyr sir ynglŷn â phenderfyniadau a allai fod yn ddadleuol y disgwylir i'r Cyngor neu'r Cabinet eu gwneud.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn ei gyfarfod ar 25 Medi bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad Rhan II ynglŷn â rhwymedigaethau'r Cyngor o ran darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y sir. Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet:

*"(a) cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyn cynllunio a cheisiadau cynllunio llawn dilynol (gan ystyried canlyniadau'r ymarfer cyn cynllunio) ar gyfer safleoedd preswyl*

*a theithiol Sipsiwn a Theithwyr ar y safle 'Green-gates Farm East' yn y lleoliadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(b) cymeradwyo cyflwyno ceisiadau cyllid i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynigion ar gyfer safleoedd preswyl a/neu Sipsiwn a Theithwyr yn amodol ar roi caniatâd cynllunio yn unol â'r rhaglen a amlinellwyd ym mharagraff 4.11 yr adroddiad."*

4.2 Cyhoeddwyd y penderfyniad uchod ar wefan y Cyngor ar 27 Medi 2018. Yn unol â Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, ni weithredwyd y penderfyniad ar unwaith fel bod aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn gallu galw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio, os oeddent o'r farn bod angen ei archwilio.

4.3 Derbyniwyd ffurflen 'Hysbysiad o Alw i Mewn' ar gyfer y penderfyniad uchod, wedi'i lofnodi gan y nifer ofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, ar 4 Hydref 2018. Roedd hyn o fewn y cyfnod o bum diwrnod gwaith a bennir yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Y sail ar gyfer galw'r penderfyniad i mewn oedd bod y Cabinet heb ystyried gwell safle.

4.4 Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, bu'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cais ymhen pum diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn. I hwyluso hynny galwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 11 Hydref 2018. Gall aelodau ddilyn y ddolen gyswllt isod i weld yr adroddiad a'r atodiadau y bu'r Pwyllgor yn eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw: http://mgintranet/ieListDocuments.aspx?CId=271&MId=5912&LLL=0

4.5 Cafwyd trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet a'r safleoedd a gynigiwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet. Er bod y Pwyllgor Craffu'n cydnabod fod y Cyngor yn rhwym yn ôl y gyfraith i ddarparu safle(oedd) preswyl a/neu deithiol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y sir os nodir fod angen fel rhan o "... asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw neu'n dod i'w ardal"[1], roedd y Pwyllgor o'r farn na ddarparwyd digon o wybodaeth er cymhariaeth yn yr adroddiad i'r Cabinet i alluogi'r Weithrediaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'r safle fwyaf addas.

4.6 Roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu o'r farn y byddai wedi bod yn fuddiol i'r Cabinet gael gwybodaeth gymharol o'i flaen yn y tablau 'manteision ac anfanteision' a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar gyfer pob safle a gynigiwyd, ynghyd â'r rhesymau pam fod safleoedd oedd wedi'u cynnwys mewn rhestr flaenorol o safleoedd posib wedi'u dileu. Ar y rhestr honno oedd y safleoedd i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyn cynllunio, cyn mynd ymlaen i geisiadau cynllunio llawn a chyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid.

4.7 Ar sail hynny mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, gan roi sylw i'r wybodaeth ychwanegol y cyfeirir ati uchod. Mae'r adroddiadau blaenorol aeth i'r Cabinet ynghlwm wrth yr adroddiad hwn (**Atodiad 1** – Adroddiad i'r Cabinet 24 Ebrill 2018 ac **Atodiad 2** – Adroddiad i'r Cabinet 25 Medi 2018) ynghyd â thablau diwygiedig yn dangos manteision ac anfanteision y safleoedd hynny y bu'r Cabinet yn eu hystyried yn ei gyfarfod fis Medi (**Atodiadau 3a**

[1] Section 101(1) of Part 3 of the Housing (Wales) Act 2014

**a 3b**) a’r rhestr wreiddiol o safleoedd posibl ynghyd â disgrifiadau byr o’r rhesymau dros beidio â’u cymeradwyo. Gan fod yr wybodaeth yn y dogfennau hyn yn gyfrinachol, ni chyhoeddwyd yr wybodaeth yn unol â pharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4.8 Hefyd, roedd y Pwyllgor Craffu o’r farn y dylai’r Cabinet fod wedi cyfeirio'r mater at sesiwn Briffio’r Cyngor fel y gallasai mwy o aelodau gyfrannu cyn i’r Cabinet benderfynu’n ffurfiol. Yn y dyfodol, felly, argymhellir bod y Cabinet yn ystyried cyfeirio penderfyniadau ‘pwysig' at sesiwn Briffio’r Cyngor, cyn penderfynu ar faterion felly.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes cysylltiad rhwng adolygu’r penderfyniad a’r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â chostau darparu safle Sipsiwn a Theithwyr yn yr adroddiad aeth i’r Cabinet ar 25 Medi 2018 (Atodiad 1). Cyflwynir gwybodaeth ychwanegol yn Atodiad 3 i’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Gweler yr adroddiad aeth i’r Cabinet ar 25 Medi 2018.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae’r adroddiad yn nodi casgliadau’r Pwyllgor Craffu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gweler yr adroddiad aeth i’r Cabinet ar 25 Medi 2018.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai’r ffaith fod y Pwyllgor Craffu wedi adolygu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet liniaru ar unrhyw risgiau i’r Cyngor yn y dyfodol o ran herio’r penderfyniad o’r tu allan.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adrannau 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

Adran 7.4.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor, sy’n datgan “Gall Pwyllgorau Archwilio adolygu a chraffu ar [benderfyniadau’r Cabinet]” ac Adran 7.4.2(d) sy’n datgan y gall y Pwyllgor “[wneud] argymhellion i'r Cabinet... sy’n deillio o ganlyniadau'r broses archwilio.”

**Swyddog Cyswllt:**
Rhian Evans
Cydlynydd Craffu
Ffôn: 01824 712554
e-bost: rhian.evans@denbighshire.gov.uk

**<u>Rhestr o Atodiadau</u>** (oll heb eu cyhoeddi – gweler paragraff 4.7)

**Atodiad 1:** Adroddiad i'r Cabinet 24 Ebrill 2018

**Atodiad 2:** Adroddiad i'r Cabinet 25 Medi 2018

**Atodiadau 3a a 3b:** Tabl diwygiedig o fanteision ac anfanteision y safleoedd hynny y bu'r Cabinet yn eu hystyried yn ei gyfarfod fis Medi 2018.

**Atodiad 4:** Y rhestr wreiddiol o safleoedd posib ynghyd â disgrifiadau byr o'r rhesymau dros beidio â'u cymeradwyo.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag